CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

SWYDD DDISGRIFIAD

Mae nifer o swyddi ar gael

Teitl y swydd:	**Gweithiwr Cymorth Gofal ac Ailalluogi**
Rhif y Swydd:	**ADU7188**
Cod GS:	**ASC162**
Gwasanaeth:	**Gwasanaethau Oedolion**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Y Trallwng**

Mae hon yn swydd gweithio ar hyd y lle, sy'n golygu er bydd angen i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol, byddan nhw'n gweithio ar draws y sir o wahanol leoliadau y rhan fwyaf o'r amser

Graddfa:	**Graddfa 5** **Pwynt 7 i Bwynt 9** **£27,274 i £28,153 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£14.13 i £14.59 yr awr**
Oriau'r contract:	**35 awr, Parhaol**
Atebol i:	**Arweinwyr Tîm**
Cyfrifoldeb dros:	**Neb**

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Bod yn gyfrifol am weithredu Cynlluniau Personol i alluogi pobl i gyrraedd neu adennill eu potensial mwyaf, yn seiliedig ar asesiadau, adnoddau a galluoedd. Cynorthwyo neu alluogi defnyddwyr gwasanaeth i barhau i fyw yn y gymuned, gan wella ansawdd eu bywydau, eu cefnogi a'u cynnal yn ddiogel yn eu hamgylchedd eu hunain. Cydymffurfio â gofynion gwasanaeth Cofrestrwyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016.

2. Cefnogi pobl i ddiwallu eu hanghenion a'u canlyniadau wedi'u hasesu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person fel y manylir mewn cynllun personol, y gellir ei gyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau. Dylid gwneud hyn yn unol â chynyddu annibyniaeth cymaint â phosibl.

3. Cefnogi pobl a allai fod ag anghenion cymhleth gyda gofal personol, tasgau codi a chario a all gynnwys defnyddio offer codi a chario lle bo angen, a chymorth gyda meddyginiaeth yn unol â'u cynllun personol a'u polisi meddyginiaeth.

4. Cefnogi pobl i adnabod a chefnogi ailgysylltu â'u cymuned leol a'u rhwydweithiau. Annog y person ym mhob maes o'i fywyd gyda phwyslais arbennig ar gyrraedd ac adennill eu potensial mwyaf.

5. Deall beth sy'n bwysig i berson a'u helpu i reoli risgiau i wneud y mwyaf o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau. Gweithio gyda'r person, wrth adennill eu hannibyniaeth mewn sgiliau byw bob dydd, gan gynnwys gofal personol. Gall hefyd gynnwys nifer cyfyngedig o ofal dros nos.

6. Gweithio fel rhan o dîm i wasanaethu mewn ffordd hyblyg er mwyn gweithredu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos, rhwng 7am a 10pm. Mae hyn yn cynnwys gweithio penwythnosau/gwyliau cyhoeddus a nosweithiau. Mae hyn yn cynnwys gweithio unigol neu alwadau gyda chydweithwyr wrth ddarparu cymorth yng nghartrefi pobl eu hunain

7. Cyfathrebu gydag empathi a thosturi i ddatblygu cydberthynasau yn gyflym ac adeiladu cydberthynasau gwaith effeithiol gydag unigolion, teuluoedd a'u gofalwyr. Cyfathrebu â rheolwyr ac aseswyr am adborth a dilyniant ar gynlluniau personol.

8. Cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau cyfredol. Rhoi gwybod am unrhyw fylchau gwasanaeth a phryderon ynghylch darpariaeth ansawdd gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth i barhau i gydymffurfio â rheoliadau RISCA 2016, gan gynnwys cefnogi defnyddwyr gwasanaeth gyda Sicrhau Ansawdd.

9. Sicrhau bod cofnodion a nodiadau ffeiliau yn cael eu cwblhau a/neu eu diweddaru yn unol â pholisi a gweithdrefnau adrannol ac i gydymffurfio â phrotocolau rhannu gwybodaeth, diogelu data ac egwyddorion llywodraethu gwybodaeth.

10. Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol a chadw at y Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Cynnal datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau gwybodaeth gyfredol o'r ddeddfwriaeth gyfredol. Nodi a chymryd rhan yn yr holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu fel yr ystyrir eu bod yn briodol a sicrhau gwybodaeth a chydymffurfiaeth â'r holl bolisïau perthnasol

11. Paratoi a chymryd rhan mewn goruchwyliaeth ac arfarniadau gyda rheolwr llinell. Mynychu a chymryd rhan weithredol mewn sesiynau ymarfer myfyriol a chyfarfodydd tîm yn ôl yr angen. Cadw at bolisïau corfforaethol a'r Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Cadw at Bolisïau a Gweithdrefnau Cyngor Sir Powys a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd rydych yn gwneud cais amdani wedi'i gwmpasu gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013). Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf

2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion hyglwyf.

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd rydych chi'n gwneud cais amdani wedi'i chwmpasu gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) - Efallai y bydd gan y swydd hon ofyniad am Archwiliad Diogelwch Personél Sylfaenol (BPSS).

Gofynion Iechyd a Diogelwch:

Cydweithredu â'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau Iechyd a Diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir hwy ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor

Gofynion y Gymraeg:

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.

SYLWCH:

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Gofynnir i bob ymgeisydd ddarllen gofynion y swydd yn ofalus. Mae'r Cyngor yn croesawu eich cais os ydych chi'n credu eich bod yn bodloni holl feini prawf hanfodol manyleb y person. Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer rolau darparu gofal, mae'n hanfodol eich bod ar hyn o bryd yn gallu darparu gofal personol agos i'n preswylwyr gofal.

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlynol yn eich cais.

Profiad

Dymunol

- Profiad o weithio mewn gwasanaeth sy'n gysylltiedig â gofal neu leoliad tebyg / profiad personol Profiad o weithio fel rhan o grŵp / tîm a chyfrannu at ei ddatblygiad
- Profiad o weithio gyda phobl hŷn a phobl anabl

Gwybodaeth

Hanfodol

- Dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn a phobl anabl

Dymunol

- Rhywfaint o wybodaeth/Ymwybyddiaeth o'r "Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol"Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Safon dda o addysg

Dymunol

- Wedi cwblhau o leiaf QCF Lefel 3 mewn gofal neu gymhwyster neu gymhwyster Lefel 3 gofal cymdeithasol perthnasol arall neu ymrwymiad i'w gwblhau o fewn 18 mis.

Rhinweddau Personol

Hanfodol

- Gallu gweithio'n hyblyg pan fo angen.
- Gallu gweithio fel unigolyn ac fel rhan o dîm ehangach
- Addasadwy i amgylcheddau gwaith sy'n newid.
- Y gallu i gyfathrebu â phobl hŷn, gofalwyr a theuluoedd mewn modd priodol gydag empathi
- Yn gallu addasu arddull cyfathrebu i'r person a'r sefyllfa
- Yn gallu defnyddio menter ei hun.

- Agored i ddulliau amgen
- Gweithio mewn dull sy'n canolbwyntio ar y person
- Gweithio gydag integriti a dull cyson.
- Sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i sefydlu cydberthynasau priodol gyda'r ffiniau proffesiynol priodol.
- Hunan-ysgogol, rhagweithiol, dyfeisgar, ac yn gallu cydnabod pryd i geisio cefnogaeth.
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal ac arferion diwahaniaethol
- Yn onest, y gellir ymddiried ynddynt, nad yw'n feirniadol, yn brydlon ac yn ddibynadwy

Dymunol

- Y gallu i greu a chynnal cydberthynasau gwaith da.
- Y gallu i gefnogi ac arwain cydweithwyr, a gweithio fel rhan o dîm.

Sgiliau

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu da gan gynnwys y gallu i gyfathrebu ag unigolion, gofalwyr, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Y gallu i ddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu.
- Ymrwymiad i'r egwyddor o gyfrinachedd
- Gweithio'n annibynnol ac o fewn tîm
- Y gallu i sicrhau adrodd a chofnodi gwybodaeth yn dda.
- Defnyddio menter, gwneud penderfyniadau, datrys problemau a cheisio cyngor / arweiniad pan fo angen.
- Y gallu i weithio gan ddefnyddio menter eich hun a gwneud penderfyniadau
- Sefydlu perthynas waith da gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth yn seiliedig ar barch a gonestrwydd.
- Y gallu i ymateb i sefyllfaoedd brys ac anrhagweladwy
- Y gallu i ddefnyddio TGCh, e-byst, y rhyngrwyd, a ffonau symudol

Dymunol

- Y gallu i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr corfforaethol i ddatrys sefyllfaoedd.

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Y gallu i deithio o amgylch yr ardal ac ymweld â defnyddwyr gwasanaethau yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

- Gallu corfforol i ddarparu gofal personol gan gynnwys symud a thrin mewn cartref unigol ei hun.
- Gallu a pharodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol.
- Dealltwriaeth glir o bwysigrwydd cyfrinachedd.
- Trwydded yrru gyfredol

Gall y swydd fod yn heriol yn gorfforol ac yn feddyliol, gan ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr ddarparu gofal personol a chymorth i'r preswylwyr hynny sydd ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys.

Rheolwr recriwtio: Hazel Jukes

Mehefin 2026

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithredol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi
- Gwerthwch eich hun a lle bo'n bosibl rhowch enghreifftiau
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn llawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 30/11/2026.
Ar ôl cyflwyno eich cais byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod os byddwch wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.